# Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

## Egwyddorion a Chyd-destunau

### Croeso Nôl

Gobeithio eich bod wedi cael cyfle i ymlacio dros wyliau'r Pasg a'ch bod chi a'ch myfyrwyr yn barod ar gyfer cyfres arholiadau'r haf.

### Dyddiadau Allweddol ar gyfer Asesu

Y llynedd, fe wnaethom ystyried yr adborth gan ganolfannau ynghylch uwchlwytho gwaith ymgeiswyr bob Haf, a gwneud rhai newidiadau i'r terfynau amser uwchlwytho. Roedd hyn er mwyn osgoi'r llwyth gwaith trwm o uwchlwytho saith uned o bosibl ar gyfer y Diploma Estynedig i gyd ar yr un pryd. Yn ogystal, gyda therfyn amser hwyrach, mae rhai canolfannau yn cau o fewn y cyfnod cymedroli tair wythnos. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd gofyn am fwy o samplau os oes angen.

Anfonwyd cylchlythyr (092) i bob canolfan ym mis Chwefror 2025, yn nodi'r dyddiadau uwchlwytho newydd fel a ganlyn:

**Unedau 3, 6 a 9 – 5 Mehefin**

**Unedau 1, 4, 5 ac 8 – 15 Mai**

Y llynedd, er mwyn y canolfannau a oedd wedi cynllunio ymlaen llaw, gwnaethom weithredu dull hybrid.  Eleni bydd y dyddiadau uchod yn weithredol gan ganiatáu i'r broses gymedroli ddechrau ac i unrhyw ymholiadau gael eu datrys. Er hyn, bydd IAMIS yn agor o 1 Ebrill i ganolfannau uwchlwytho gwaith os ydynt yn dymuno.

**Sylwch na** ddylai ymgeiswyr gynnwys gwybodaeth bersonol yn eu gwaith cwrs Asesiad Di-arholiad er enghraifft enwau lleoliadau, defnyddwyr y gwasanaeth neu unrhyw ddata canfyddadwy.

### Newidiadau i faint samplau ar gyfer Haf 2026

Anfonwyd cylchlythyr at ganolfannau ym mis Medi 2025 (cylchlythyr rhif 010), i'w hysbysu am y newidiadau i faint sampl Asesiadau di-arholiad.  Mae'n nodi:

*Yn unol â chyrff dyfarnu eraill y CGC, o haf 2026 byddwn yn cynyddu maint y sampl cychwynnol sy'n cael ei gasglu gan ganolfannau yn ôl y tabl canlynol.*

| ***Nifer*** *yr ymgeiswyr a gofrestrwyd ar gyfer y gydran Asesiad Di-arholiad* | ***Nifer yr ymgeiswyr wedi'u cynnwys yn y sampl Asesiadau Di-arholiad*** |
|---|---|
| *Hyd at 5* | *Pob un* |
| *6-10* | *Pob un* |
| *11-15* | *Pob un* |

| | |
|---|---|
| *16-100* | *15* |
| *101-200* | *20* |
| *Dros 200* | *25* |

*Bydd y sampl yn cael ei gynhyrchu'n electronig gan* Porth CBAC - Dewis Canolfan.

*Does dim newid i'r broses gymedroli; mae casglu sampl ychydig bach mwy ar y terfyn amser cyflwyno Asesiadau Di-arholiad yn golygu ein bod yn llai tebygol o gysylltu â chi'n nes ymlaen yn y cyfnod cymedroli i ofyn am samplau ychwanegol. Fodd bynnag, os penderfynwn fod angen gwneud hynny yna rydym yn cadw'r hawl i ofyn am gael gweld y garfan gyfan. Felly, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gwaith yr holl ymgeiswyr a ffurflenni'r Asesiadau Di-arholiad perthnasol wedi'u cadw'n ddiogel yn y ganolfan.*

## Ymuno â'r tîm cymedroli neu'r tîm arholi

Mae cyfleoedd i ddod yn benodai a chymedroli neu arholi ar gyfer cymhwyster L3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau. Fel penodai byddwch yn cael mewnwelediad gwerthfawr i'r broses asesu ac yn cynyddu eich dealltwriaeth o gynnwys y pwnc. Mae manylion llawn ar sut i ymgeisio ar gael ar ein tudalen Penodedigion. Arholi gyda ni | CBAC

## Cysylltu â ni

Mae'r tîm Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn hapus i'ch helpu â'ch holl ymholiadau'n ymwneud ag addysgu a dysgu'r cymhwyster.

**Susanne Allcroft – Swyddog Pwnc**

**Emma Vaughan – Swyddog Cefnogaeth Pwnc**

Cysylltwch â ni drwy e-bost neu dros y ffôn.

igceach@cbac.co.uk

**02920 265139**